Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Mr Gwilym Davies
Tŷ Cerrig
Parc
Y Bala
Gwynedd
LL23 7YT

**Ein cyf: PAN-002213**
**Eich cyf: GWN1937**

**Dyddiad: 20 Mawrth 2018**

Annwyl Mr Davies

**Mae'r newid i'ch trwydded wedi ei gwblhau**

**Cyfeirnod y drwydded: PAN-002213**
**Gweithredwr: G ac O ac M Davies**
**Cyfleuster: Tir yn Nhŷ Cerrig**

Mae ein penderfyniad ynghylch eich cais i newid eich trwydded wedi'i gwblhau. Rydym yn fodlon y gallwch barhau i gynnal eich gweithgareddau yn unol â'r newid, heb niweidio'r amgylchedd nac iechyd pobl. Amgaeaf hysbysiad sy'n dangos y newidiadau i'ch trwydded. Os gwelwch yn dda, gofalwch eich bod yn cadw'r drwydded mewn man diogel gyda chofnodion eraill eich trwydded.

Mae'r llythyr hwn yn cynnwys dolenni gwe sy'n arwain at ddogfennau eraill. Os na allwch gael mynediad at y rhain, a wnewch chi ffonio ein Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0300 065 3000 i gael cymorth.

Os nad ydych eisoes yn gyfarwydd â'n dogfen 'Sut i gydymffurfio â'ch trwydded amgylcheddol' a fyddai'n bosibl ichi gael golwg arni, gan y bydd hyn yn eich helpu i ddeall sut i fodloni amodau eich trwydded. Gallwch ddod o hyd i'r ddogfen hon ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn:
http://naturalresources.wales/media/2110/how-to-comply-with-your-environmental-permit.pdf

A wnewch chi fwrw golwg ar y tabl isod a nodi unrhyw elfennau sy'n berthnasol i'ch trwydded.

Ffôn/Tel 029 2046 XXXX
Ffacs/Fax 029 2046 8874
Ebost/Email firstname.lastname@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
firstname.lastname@naturalresourceswales.gov.uk

Canolfan Trwyddedu Cymru (Caerdydd), Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd. CF24 0TP
Wales Permitting Centre (Cardiff), Natural Resources Wales, Cambria House, 29 Newport Road, Cardiff. CF24 0TP

Gwefan/Website www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

| Os… | yna ... |
|---|---|
| yw'r newid yn golygu eich bod bellach yn cynnal gwaith neu weithgaredd gwastraff a bod angen ichi gyflwyno cofnodion gwastraff chwarterol ynghylch symudiadau gwastraff<br><br>**Sylwer:** Nid yw hyn yn berthnasol i drwyddedau sy'n cynnwys gweithgareddau dŵr daear neu ollyngiadau dŵr annibynnol yn unig | gallwch ddod o hyd i'r ffurflenni sydd eu hangen arnoch ar ein gwefan www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk<br>Os nad oes gennych fynediad i'r we ffoniwch ein Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid |
| bydd angen ichi gyflwyno cofnodion eraill | anfonwch y rhain i'ch swyddfa ardal. Siaradwch â'ch swyddog ardal i gadarnhau trefniadau lleol. |

**Hawliau i apelio**

Os nad ydych yn fodlon ag unrhyw amod yn y drwydded a osodwyd gan y newid gallwch apelio ar Weinidogion Cymru. Os ydych eisiau apelio yn erbyn unrhyw amod a osodwyd o ganlyniad i'r cais rhaid ichi gyflwyno eich apêl o fewn chwe mis ar ôl dyddiad yr hysbysiad o newid. Os byddwch yn dymuno apelio yn erbyn unrhyw amod yr ydym wedi ei ychwanegu fel newid a gychwynnwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru rhaid ichi apelio o fewn dau fis fan bellaf o ddyddiad yr hysbysiad.

Bydd rhagor o wybodaeth am apelio a'r ffurflenni fydd eu hangen arnoch ar gael ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio neu o'r manylion cysylltu isod.

Yr Arolygiaeth Gynllunio, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.
**Ffôn:** 029 2082 3866 / 389, Ffacs: 029 2082 5150 **E-bost:** wales@pins.gsi.gov.uk

Rhaid ichi anfon rhybudd ysgrifenedig o'r apêl, ynghyd â'r dogfennau a restrir isod, at Weinidogion Cymru ac i gyfeiriad yr Arolygiaeth Gynllunio uchod. Yr un pryd, rhaid ichi anfon copi o'r rhybudd a'r dogfennau i ni, i:

**Gwasanaeth Trwyddedu, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd. CF24 0TP**
**Ffôn: 0300 065 3000**

Dyma'r dogfennau:
- datganiad yn ymwneud â'r rhesymau dros yr apêl;
- copi o unrhyw gais perthnasol;
- copi o unrhyw drwydded amgylcheddol berthnasol;
- copi o unrhyw ohebiaeth rhwng yr apelydd a'r rheoleiddiwr;
- copi o unrhyw benderfyniad neu hysbysiad sy'n rhan o gynnwys yr apêl; a

- datganiad yn nodi pa un a ydych yn dymuno i'r apêl fod ar ffurf gwrandawiad ynteu ar ffurf sylwadau ysgrifenedig.

Gallwch dynnu unrhyw apêl yn ôl trwy hysbysu Gweinidogion Cymru'n ysgrifenedig ac anfon copi o'r hysbysiad hwnnw atom ni.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau'n ymwneud â'r drwydded hon ffoniwch ein Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0300 065 3000. Byddant yn eich rhoi mewn cysylltiad â swyddog ardal lleol.

Yn gywir

A. Smith

**Asta Smith**
**Swyddog Trwyddedu Ansawdd Dŵr**